**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 12-02(p3)**

**Dyddiad:** **26 Mehefin 2002**
**Amser:** **1.30 – 4.25pm**
**Lleoliad:** **Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, Llanarthne**
**Teitl:** **PAPUR TRAFOD AR Y RHAGLEN TECHNIUM**

## SYNERGEDD Â STRATEGAETH LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

Mae'r rhaglen Technium yn ategu'n llawn strategaeth Llywodraeth y Cynulliad fel y'i nodir yn "Cymru'n Ennill" i annog cydweithredu rhwng diwydiannau a'r byd academaidd, i hybu arloesedd a mentergarwch, a symbylu achosion lle troir ymchwil prifysgolion yn fenter busnes.

## TECHNIUM - Y CYSYNIAD

Canolfannau busnes ac arloesi yw Techniums, sydd wedi'u cynllunio'n benodol i ysgogi Ymchwil a Datblygiad; i gynorthwyo cwmnïau newydd sydd â'r potensial i dyfu'n fawr; a denu prosiectau ymchwil lloeren o gorfforaethau rhyngwladol.

Y nod yw gwneud Cymru'n fwy atyniadol fel y dewis cyntaf ar gyfer lleoli diwydiannau sy'n seiliedig ar arloesi, a bydd disgwyl i'r Technium ym mhob sector sefydlu cysylltiadau cryf â fforymau sectorau cysylltiedig.

Mae Technium yn gysyniad unigryw sydd wedi'i arloesi a'i ddatblygu yn Abertawe ac yn ardal De Orllewin Cymru.

Mae'r fenter wedi'i chynllunio'n arbennig i wireddu dyheadau llywodraeth y Cynulliad o weld economi sy'n fwyfwy seiliedig ar wybodaeth ac ar gynnyrch a gwasanaethau sydd â gwerth ychwanegol uchel iddynt, a gweithlu hynod ymroddedig sy'n meddu ar sgiliau da sy'n cael ei werthfawrogi.

Mae'r brand Technium yn cael ei ddatblygu a'i feithrin yn ofalus. Mae'r enw wedi'i ddiogelu gan nod masnach. Rheolir trwyddedau i ddefnyddio'r enw Technium yn ofalus ac mae'n rhaid bodloni'r meini prawf a ganlyn:

1. Rhaid bod cysylltiad clòs â gwaith ymchwil o ansawdd uchel yn un o brifysgolion Cymru
2. Rhaid cael adeiladau o safon uchel, gan gynnwys lle i ehangu gerllaw
3. Rhaid cael isadeiledd cymorth TG ystod uchel, wedi'i gysylltu â Super-Janet drwy system y Brifysgol
4. Rhaid sicrhau bod y sector preifat ynghlwm wrth y gwaith
5. Rhaid bod cymorth busnes arbenigol ar gael

-

**CEFNDIR**

Deilliodd y cysyniad Technium o drafodaethau cychwynnol rhwng grwp o gynrychiolwyr o'r brifysgol ac o'r sector preifat a chyhoeddus yn ardal Bae Caerdydd a oedd yn cydnabod bod angen prosiect i ddangos y ffordd, fel catalydd i ddatblygu'r economi wybodaeth yn yr ardal. Yn dilyn hynny, datblygwyd cynnig ac fe'i cyflwynwyd am gymorth ERDF.

Roedd 4 nod i'r cais gwreiddiol;

1. Hwyluso'r gwaith o greu amgylchedd o ansawdd uchel sy'n addas i fusnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth
2. Helpu i greu busnesau bach a chanolig newydd sy'n seiliedig ar wybodaeth
3. Hybu twf busnesau bach a chanolig sy'n bodoli eisoes
4. Annog mewn-fuddsoddwyr i leoli'u gweithgareddau ymchwil a datblygu yn yr ardal

O hyn, ganed Technium Abertawe ar lan y dwr yn Abertawe. Torrwyd y dywarchen yng ngwanwyn 2000, a daeth y gwaith adeiladu i ben yn Ebrill 2001.

**TECHNIUM ABERTAWE - Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD**

Mae Cyfnod 1 Technium Abertawe wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae swyddi o ansawdd wedi'u creu a mewn-fuddsoddwyr wedi cychwyn 2 weithgarwch ymchwil a datblygu, gan gynnwys Agilent Technologies.

Mae pob un o'r 14 uned wedi'u gosod, gyda 12 busnes cymwys ynddynt.

sy'n gymysgwch da o fusnesau newydd a mentrau bach a chanolig sy'n tyfu.

Mae 2 fewn-fuddsoddwr arall wedi cael eu perswadio i leoli'u gweithgareddau mewn man cyfagos, a'r dylanwad pennaf oedd y cyfleusterau Technium.

**DATBLYGU RHWYDWAITH TECHNIUM DE ORLLEWIN CYMRU**

Mae llwyddiant Technium Abertawe wedi symbylu cynlluniau ar gyfer Cyfnod 2 a chaiff hwn hefyd ei leoli ar lan y dwr yn Abertawe. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gychwyn yn fuan, ac ar ôl ei gwblhau bydd yn hwyluso'r gwaith o ad-leoli tenantiaid y cyfnod cyntaf, ac yn creu lle i'r ail

genhedlaeth.

Mae rhwydwaith o Techniums yn cael eu datblygu yn ardal y De Orllewin hefyd gyda'r Technium Gwreiddiol yn Abertawe yn ganolog i'r rhwydwaith rhanbarthol.

Bydd pob Technium newydd yn gysylltiedig â sector arbennig gyda'r canlynol wrthi'n cael eu datblygu;

- Awto-Dechnium i'w leoli yn Dafen a Phen-bre gyda chysylltiad rhwng y gweithgareddau a Phrifysgol Abertawe ac Athrofa Abertawe, yn arbennig yn y sector peirianneg perfformiad a modurol. Ymhlith y partneriaid yn y sector preifat mae Calsonic,Visteon, BARC, MSA.

- Bio-Dechnium i'w leoli yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol ger Caerfyrddin gyda gweithgareddau'n canolbwyntio ar y sector biodechnoleg gan gynnwys profion amgylcheddol a meddyginiaeth yn seiliedig ar blanhigion.

- Technium Cyfryngau i'w leoli yng Ngelli Aur, gyda gweithgareddau'n benodol yn y sector cynnwys cyfryngau. Partner sector preifat - Hartham Park Ltd.

- Technium Digidol i'w leoli ar gampws Prifysgol Cymru Abertawe gyda gweithgareddau yn sectorau'r cyfryngau a thechnoleg ddigidol. Partner sector preifat - Teledu Agenda Cyf.

- Technium Technoleg Gynaliadwy i'w leoli ym Mharc Ynni Baglan.

**CYNLLUNIAU CYFLWYNO LEDLED CYMRU**

Honnir y byddai Techniums, pe baent yn cael eu cyflwyno gyda gofal ledled Cymru, yn help sylweddol i gyrraedd y targedau yn "Cymru'n Ennill". Yn arbennig, gallai arwain at greu 1500 o gwmnïau sy'n tyfu'n gyflym dros gyfnod o 10 mlynedd.

Yn y cyd-destun hwn, mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi ymrwymo i broses o'r fath, tra'n sicrhau nad yw, yn sgil hynny, yn gwanhau'r meini prawf ansawdd sydd wedi'u sefydlu, a bod safonau uchel yn cael eu cynnal.